



**Cardiff**  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
**Caerdydd**

**BA Anrh Cerameg**

**YSGOL GELF A DYLUNIO**

**Prosiectau yr Haf a Phecynnau Offer  
Medi 2023**

## **Croeso:**

Croeso i'r cwrs BA (Anrh) Cerameg yn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd.

Rydym yn gyffrous iawn ein bod yn croesawu ein myfyrwyr newydd i'r cwrs ym mis Medi 2023. O'ch blaen, mae tair blynedd gyffrous o ddysgu mewn amgylchedd ysgogol a chefnogol a fydd yn sylfaen i'ch gyrfaedd yn y dyfodol mewn ymarfer creadigol.

Yma yn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd rydym yn edrych ar Cerameg o sawl cyfeiriad. Rydym yn addysgu fel bod disgyblaeth, yn draddodiadol ac arloesol, wrth wraidd ein ga darpariaeth. Yna rydyn ni'n dod o hyd i ffyrdd i'w weld o'r newydd. Rydym yn ail-leoli Cerameg mewn perthynas â ffyrdd eraill o feddwl: cerflunio, celfyddyd gain, tecstilau, dylunio cynnyrch, dylunio ffasiwn, darlunio, animeiddio; i ysgogi syniadau, dehongliadau a chysylltiadau newydd sy'n gwella'r ffordd rydym yn meddwl amdano, a'r ffyrdd y byddwch yn canfod eich gwaith eich hun. Rydym yn cymryd yr amser i ystyried a thalu sylw manwl, i greu gofod lle mae Cerameg yn cael cyfle i ymddangos mewn ffyrdd annisgwyl.

**Nid oes** unrhyw ddwy daith myfyriwr yr un fath a byddwn yn eich cefnogi i ddod o hyd i'ch llais creadigol unigryw.

Ac felly dechreuwch eich taith, byddwch yn dysgu pethau na wnaethoch chi erioed eu dychmygu, byddwch chi'n gwneud ffrindiau am oes, byddwch chi'n ymweld â lleoedd rhyfeddol ac yn gwneud pethau anghyffredin, mae'n bleser gennym eich tywys ar y daith honno!

Duncan Ayscough MA CertEd FHEA FCPA FRSA.

Tiwtor Derbyn: Cerameg BA (Anrh)

## **Prosiect yr Haf**

Er mwyn eich paratoi ar gyfer dechrau'r rhaglen ac i gael rhywbeth i'w drafod pan fyddwch yn cyrraedd, hoffem i chi gwblhau prosiect haf bach, ac amlinellir y manylion isod:

Fel y gwyddoch, mae'r ysgol yn darparu'r deunyddiau clai a gwydredd sydd eu hangen arnoch i ymgymryd â modiwlau'r rhaglen. Fodd bynnag, mae cymaint mwy i'r ddaear sy'n gorwedd o dan eich traed. Mae rhan o'ch modiwl pwnc cyntaf yn archwilio priodweddau ffisegol clai heb ei fireinio. I baratoi ar gyfer hyn, hoffem i chi gasglu clai o ardal leol i chi. Gellir dod o hyd i glai ar lannau afonydd, safleoedd adeiladu, traethau ac aberoedd llanw. Os ydych yn cloddio tua 40 cm o dan yr wyneb rydych yn debygol o ddod o hyd i sylwedd mwy trwchus, 'plastig' a hydrin tebyg i fag o glai a brynwyd. Gan nad yw wedi'i brosesu eto, disgwylwch ddod o hyd i ddail, cerrig, tywod, gwreiddiau neu gerrig mân ynddo.

Hoffem i chi gloddio tua 3-5 kilo, hanner i dri chwarter bag siopa neu fwced. Torrwch y clai yn lymphiau bach h.y. maint grawnwin neu lai a'i **\*adael i sychu'n drylwyr\*** - bydd

hyn yn ei wneud yn ysgafnach ac yn rhoi cychwyn da i chi ar y prosiect. Dewch ag ef i stiwdio'r flwyddyn gyntaf ar ein diwrnod cyntaf yn y stiwdio.

Bydd y ddolen ganlynol i Ceramic Art Daily yn rhoi cipolwg defnyddiol ar sut y byddwn yn dod o hyd i glai a sut y byddwn yn ei brosesu.

<http://ceramicartsdaily.org/ceramic-supplies/pottery-clay/going-local-how-to-dig-and-process-your-own-clay/>

**NODYN: Os ydych yn teithio i Gaerdydd o dramor nid oes angen i chi ddod â chlai o'ch mamwlad gyda chi ond rydym yn disgwyl i chi gynnal yr ymchwil a ddisgrifir isod.**

Hoffem i chi gynnal astudiaeth syml o'r ardal lle lleolwyd y clai. Yn yr achos hwn hoffem i chi ymchwilio i'r berthynas rhwng sut y gallai'r ddaear fod wedi cael ei defnyddio ar gyfer cynhyrchu megis crochendai, ffermio, dyddodion sialc neu lo – a'i amserlen gymdeithasol-hanesyddol megis twf llythrennol ac economaidd pentref, tref, neu ddinas. I wneud hyn, mae angen i chi gofnodi, drwy loeren neu lywio â llaw, y cyfesurynnau o ble y daethpwyd o hyd i'r clai, a'i ddefnyddio fel rhan o ymchwil i ddaear a hanes ei ardal.

Fel rhan o'r prosiect hwn, hoffem i chi hefyd wneud rhywfaint o waith ymchwil am yr ardal rydych chi'n byw ynddi a lle cawsoch eich clai gan ddechrau gyda daear y ardal honno. Man cychwyn gwych ar gyfer hyn yw'r arolwg daearogol cenedlaethol <http://www.bgs.ac.uk/data/mapViewers/home.html> Mae hwn yn rhoi data amhrisiadwy am ddaear y DU gyfan.

Allwch chi nodi unrhyw hanes o weithgynhyrchu cerameg yn eich ardal chi?

### **Tasgau Cyn Sefydlu**

Yn yr ardal hon rydym yn ymrwymedig i'n ddefnydd o arfer gorau o ran iechyd a diogelwch. Mae'n hanfodol bod gennych y cyfarpar diogelu personol priodol o'r safon briodol. Rhestrir y rhain isod a chewch gyfle i'w prynu yn ystod wythnos gyntaf y tymor:

Mae angen i bob myfyriwr cerameg wisgo ffedog terylen wrth weithio gyda chleiau, gwydreddau a phlastr bob amser yn y gweithdai ac yn y stiwdio, bydd y rhain yn costio tua £10. Mae'n ofynnol i chi hefyd gael mwgwd anadlydd eich hun wrth weithio gyda deunyddiau sych, mae'r rhain yn costio tua £26.

### **Offer cyffredinol:**

Mae'r **offer sylfaenol pwysig iawn** hyn i gyd ar gael yn eang ond yn hanfodol: Bwced fawr, bowlen golchi llestri, sbwng mawr, sbwng bach, set o gynwysyddion plastig bach â chlawr, pren mesur, set o 3 bowlen gymysgu plastig, jwg mesur plastig, crafwr paent, twndis plastig, pin rholio pren mawr, brwsys paent addurnwyr

bach a mawr', rholyn o leininau bin plastig, hen bapurau newydd.



Offer Sylfaenol

Offer arbenigol sydd ei angen gan gyflenwr offer crochenwaith arbenigol:  
Ar gael gan gyflenwyr arbenigol a restrir isod ond hefyd gwerthwyr ebay ac amazon

Cylllell grochenwaith; set o 6 offer modelu boxwood; offer/shifflwr modelu metel; gwifren glai; llawffurf bach; teclyn troi dolennog mawr a bach; teclyn troi llafn/rhaw; 'asen' taflu pren; 'arennau' metel (math llyfn a danheddog); pin crochenwyr; sbwng bach ar ffon!

Mae'n hanfodol eich bod chi'n dechrau gyda phecyn cymorth sylfaenol ac wrth i chi symud ymlaen byddwch chi'n ychwanegu'r offer mwy angenrheidiol i'ch dull gweithio.



Offer Arbenigol

- <http://www.toppotsupplies.co.uk/>
- <http://www.bathpotters.co.uk/>
- [http://www.pottery crafts.co.uk/?gclid=CjwKEAjwqdi7BRCL6Zmjk5-rsTwSJABmrVabuLGutegQR1aELGYTRUoZ3vJEI8BbrS8q52hiTdbN1hoCKoLw\\_wcB](http://www.pottery crafts.co.uk/?gclid=CjwKEAjwqdi7BRCL6Zmjk5-rsTwSJABmrVabuLGutegQR1aELGYTRUoZ3vJEI8BbrS8q52hiTdbN1hoCKoLw_wcB)
- [http://www.potclays.co.uk/studio/?gclid=CjwKEAjwqdi7BRCL6Zmjk5-rsTwSJABmrVabWvzHra7eGCTTQGpJaBzIXSjiEumnVXlrtBCinDB6WBoCI3zw\\_wcB](http://www.potclays.co.uk/studio/?gclid=CjwKEAjwqdi7BRCL6Zmjk5-rsTwSJABmrVabWvzHra7eGCTTQGpJaBzIXSjiEumnVXlrtBCinDB6WBoCI3zw_wcB)

Os oes angen unrhyw gymorth neu gyngor arnoch ar sut i gwblhau'r dasg hon, anfonwch e-bost at ein tîm gweinyddol ysgol yn nodi enw'r cwrs yr ydych ar fin ymuno ag ef a'r cwestiynau yr hoffech eu gofyn i'r cyfeiriad e-bost canlynol: csadadmin@ [cardiffmet.ac.uk](mailto:csadadmin@cardiffmet.ac.uk)